CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 3 MEDI 2013

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
W L Davies, I C Thomas, H Edwards, H W Roberts, A W Bohana, A Kirk, M Thomas, A Hopcyn, E Hughes, T Thomas, K Williams

1. Ymddiheuriadau

Cyng. E Lovgreen (gwyliau) Cyng. D Jones (gweithio)
Cyng. G Thomas (Gwyliau) Cyng. B Owen (sâl)

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Cyhoeddiadau'r Maer am y misoedd Gorffennaf ac Awst

24.7.2013	Ras y Trên
28.7.2013	'Conway River Festival'
1.8.2013	Agor Arddangosfa yn y Castell 'The Art of Zhen Shan Ren'
10.8.2013	Ras dros y Fenai
15.8.2013	Noddfa Lansiad Cymunedau Gyntaf
16.8.2013	Sbarc - Galeri
24.8.2013	Clwb Pêl-droed Tref Caernarfon - Gem Adref
25.8.2013	Adloniant ar y Maes
26.8.2013	Clwb Bowlio diwrnod y llywydd – Caernarfon

Croesawyd Cyng. W T Owen yn nol yn dilyn triniaeth

3. Datgan Buddiant Personol

I C Thomas – trwyddedu eitem 6(3) a eitem 25 parthed grant wefan
W T Owen – cynllunio a trwyddedu 6 (1,2,3)a rhif 12 Gisda
H Edwards – trwyddedu 6(3)

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

(cyrhaeddodd Cyng A Kirk am 6.05)

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 16 Gorffennaf 2013
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu
Penderfynwyd

1. C13/0807/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd y siop presennol i fod yn dy annedd

Just Natural, 4 Pool Hill, Caernarfon

****

2. C13/0754/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd cyn siop i 4 uned preswyl/ (y cynnig oedd i wrthod ond y bleidlais aeth yn erbyn y cynnig)

44 Pool Street. Caernarfon

****

3. C13/0803/14/CR **Cytuno**
Addasiad mewnol

44 Pool Street. Caernarfon

****

4. C13/0126/14/LL **Cytuno**
Codi adeilad ar gyfer gwely a brecwast
ac uned breswyl cysylltiedig i'r Rheolwr,
mannau parcio ynghyd a newidiadau i
leoliad rhai o lecynnau carafannau
teithiol a ganiatawyd o dan Gais Rhif
C12/0563/14/LL ynghyd ac ail-godi'r cyn felin
a'i ddefnyddio ar gyfer parcio dan do/

H.Schofield & Son, Glanmorfa, Fordd Bontsaint, Caernarfon

****

5. C13/0810/14/LL **Anghytuno – croes i bolisi cefn gwlad**
Darparu 16 uned breswyl gofal
ychwanegol

Ysbyty Bryn Seiont, Ffordd Pant, Caernarfon

****

Cais am Drwydded Eiddo / Adran 115 **Cytuno**

Cais am drwydded er mwyn darparu
cyfleusterau caffi palmant ar y Briffyrdd/

Blas, 23 – 25 Twll yn y Wal/Hole in the Wall Caernarfon

****

2. Deddf Trwyddedu 2003 **Cytuno**
Licensing Act 2003

Cais i amrywio Trwydded Eiddo/

Subway, 18 Castle Square. Caernarfon

****

3. Deddf Trwyddedu 2003 **Cytnuo**
Licensing Act 2003

Cais am Drwydded Eiddo /

66 Pool Street, Caernarfon

****

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Cysoni cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Dyddiadau hyfforddiant (wedi ei symud o'r Cyngor olaf)
Penderfynwyd
Cynghorwyr i adael i'r clerc wybod pa gyrsiau mae nhw yn dymuno mynychu

10. Llyfr 'Public Catalogue Foundation' North and Mid Wales
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

11. Cynllun llifogydd

Adborth o'r cyfarfod cymunedol a'r ffordd ymlaen
Penderfynwyd
Y 4 Cynghorydd canlynol yn gwirfoddoli sef Cyng I C Thomas, Cyng W L Davies, Cyng M Thomas a Cyng A Bohana

12. Gisda

i) Cynllun cinematic
ii) Cyfarfod blynyddol Medi 26

Penderfynwyd
i) Rhoi hawl i'r clerc gychwyn trafodaethau a cael costau parthed sgrin Nadolig
ii) Derbyn er gwybodaeth

13. Adroddiad archwilydd allanol
Penderfynwyd
Derbyn yr adroddiad glan a llongyfarch y clerc am ei gwaith

14. Cyngor Gwynedd

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon
(CDLl Ar y cyd) 2011 – 2026
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

15.Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Roy Owen
Penderfynwyd
Symud i banel cyllid nesaf

16. Cymdeithas Tai Eryri

Adroddiad Blynyddol 2012 – 13
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

17. E-bost Cadw

Cofnodion cyfarfod cydlynydd safle treftadaeth y byd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

18. Llythyr Emrys Jones

Pâr: Defnydd o'r llun Deffroad Cymru
Penderfynwyd
Caniatáu gyda'r amod bod na gyfeiriad wrth y llun yn nodi mae yma yn yr Institiwt (Adeilad Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon) mae'r llun a bod angen hawlfraint y Cyngor cyn ei ddefnyddio

19.Digidol Gwynedd

Bwletin 26 - Blwyddyn ers lansio
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

20. Llywodraeth Cymru

Awst 2013 Newyddion i Gynghorau Chymuned a Thref
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

21. Cyngor Gwynedd

Llythyr parthed Maes Parcio hen safle Shell
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth a diolch i'r Cyng H W Roberts am ei waith ar y testun.

22.**Unllais**

i) Newidiadau i'r hawliau datblygu a ganiateir sydd gan ddeiliaid tai yng Nghymru
ii) Penodi aelodau i gynghorau Iechyd Cymunedol
iii) Swyddfa'r Comisiynydd pobl hyn ar gyfer Cymru
iv) Bwrdd Cynghori Twristiaeth Cymru

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

23. **Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Karen Williams**
Penderfynwyd
Cefnogi'r rhybudd ac estyn gwahoddiad i'r swyddogion priodol ddod yma i drafod y pwnc gyda'r Cyngor

24. **Heddlu Gogledd Cymru**

Pâr: Achosion dwyn ffonau symudol
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

25**. Cyngor Gwynedd**

Pâr: Grant Wefan
Siomedig bod Cyngor Gwynedd ddim wedi cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru sydd yn nodi yn glir bod cynghorau sydd a wefan yn barod ddim i'w gwahardd rhag cyfran o'r arian hwn, ond dim ond er mwyn datblygu eu gwefan ymhellach

Penderfynwyd
Symud i'r panel cyllid nesaf ag aelodau i feddwl sut y buasai nhw yn dymuno gweld newidiadau
Clerc i holi Cyngor Gwynedd os ydi hyn yn derbyniol

26. **Cwestiynau**

Ydach chi wedi sylweddoli bod cyfarfod y cyngor yr ru'n noson a noson tan gwyllt yn mis Tachwedd?
Naddo – angen trafodaeth yn y Cyngor Nesaf

Gorffennodd y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....